



Prifysgol Abertawe
Swansea University

PRIFYSGOL ABERTAWE

Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu
Medi 2026



PRIFYSGOL ABERTAWE

Ar Frig y Don ers 1920



Abaty Singleton
Adeilad hanesyddol trawiadol yng nghanol Campws Singleton, un o'n dau gampws arobryn ar ymyl y traeth.

Mae Prifysgol Abertawe'n brifysgol ag arbenigedd helaeth mewn dau faes penodol: rydym yn falch o gyflawni effaith sy'n gwneud gwahaniaeth yn y byd drwy ein hymchwil o'r radd flaenaf, ac yn darparu addysgu o ansawdd uchel ynghyd â phrofiad ardderchog i'n myfyrwyr. Drwy ein cymuned o staff sy'n ysbrydoli, mae ein hymchwil yn helpu i gadw a diogelu'r byd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan roi cyfle i fyfyrwyr fynd i'r afael â heriau byd-eang mawr a datblygu fel y genhedlaeth nesaf o arweinwyr.

Mae ein campysau glan môr trawiadol, gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf, yn ein gwneud ni'n lleoliad dymunol ar gyfer myfyrwyr a staff o bedwar ban byd, ac mae ein cymuned amlddiwylliannol yn cynnig safbwynt byd-eang, gan alluogi'r rhai hynny sy'n ymuno â ni i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth a fydd yn eu rhoi ar ben ffordd tuag at yrfaedd llwyddiannus a gwerthfawr.

Rydym wedi cyflawni lefel eithriadol o lwyddiant dros y blynyddoedd diweddar gan fod yn wydn wrth addasu i'r dirwedd newidiol. Mae ein 22,000 o fyfyrwyr wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud, ac nid yw'r llwyddiant hwn wedi effeithio ar yr awyrgylch cyfeillgar a hamddenol sy'n allweddol i'n profiad myfyrwyr ac sydd bob amser wedi bod yn nodweddiadol o "brofiad Abertawe".

Rydym wrthi'n creu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr diwydiant ac academiaidd, gyda 94% o'n graddedigion mewn cyflogaeth, yn astudio a/neu'n ymgymryd â gweithgareddau eraill megis teithio o fewn 15 mis i adael Prifysgol Abertawe. (HESA 2026)




Rydym hefyd yn y 25ain safle yn y DU yn ôl The Guardian University Guide 2027. Rydym yn y 26ain safle ar gyfer Rhagolygon Graddedigion yn Complete University Guide 2027 ac atgyfnerthwyd enw da cynyddol Prifysgol Abertawe gan ein safle ymhlith y 350 o sefydliadau gorau yn QS World University Rankings 2027.

Wedi dathlu ein canmlwyddiant yn 2020, rydym yn hynod falch o'n cyfraniad at economi a diwylliant ein rhanbarth yn ne-orllewin Cymru. Wrth i ni barhau â'n hetifeddiaeth yn yr 21ain ganrif, rydym yn ymrwymedig i barhau'n sefydliad byd-eang sy'n mynd i'r afael â'r heriau mwyaf sy'n wynebu ein planed a'i phobl drwy ein gweithgarwch ymchwil ac arloesi sy'n gwneud gwahaniaeth ac yn trawsnewid bywydau drwy ein haddysgu llawn ysbrydoliaeth.

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym yn gwerthfawrogi pobl am eu sgiliau heb ystyried eu cefndir. Rydym wedi bod yn aelod o Siarter Athena SWAN ers 2008, i gydnabod ein hymrwymiad i gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae gennym Wobr Sefydliadol Arian a ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gyflawni hyn. Rydym hefyd yn falch o fod yn ddeiliad gwobr y Siarter Cydraddoldeb Hil ac yn parhau i weithio tuag at wella cydraddoldeb hil ar draws cymuned ein Prifysgol, ochr yn ochr â'n blaenoriaethau ehangach o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym hefyd yn un o'r 100 Cyflogwr Gorau ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2024.

GWOBRAU A CHYDNABYDDIAETH

Gallwch weld y rhestr lawn o **Wobrau yma**. Gallwch weld y rhestr lawn o **Safleoedd a Sgorau yma**.



EIN CAMPYSAU

Sefydlwyd Campws Singleton Prifysgol Abertawe ym 1920, pan osododd Brenin Siôr V garreg sylfaen seremonïol y Brifysgol yn Abaty Singleton. Wedi'i lleoli mewn parcdir ar lan môr Abertawe, hon oedd y brifysgol gyntaf a ddyluniwyd ar gynllun campws yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Abaty yn parhau i fod wrth wraidd y campws, sydd wedi parhau i ddatblygu ac sydd wedi bod yn gartref i'n Prifysgol ers dros gan mlynedd.

Yn 2016, agorwyd ein Campws y Bae, sef datblygiad ar lan y môr gwerth £450 miliwn, sydd wedi dyblu ein gallu ymchwil ac addysgu, ar ochr ddwyreiniol y ddinas. Ynghyd â gweddnewid parhaus Campws Parc Singleton, mae'r datblygiad hwn yn cadarnhau ein hymrwymiad i fod yn un o'r lleoedd gorau i fyw, addysgu, gwneud ymchwil a chydweithio yn Ewrop. Yn y blynyddoedd diwethaf rydym hefyd wedi datblygu ein Canolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM), canolfwynt ar gyfer cysylltu ymchwil, arloesi a gweithgynhyrchu, a SUSIM, ein canolfan efelychu a dysgu ymdrochol arloesol.



Y Ffowndri Gyfrifiadol: cyfleuster gwerth £32.5m o'r radd flaenaf ar Gampws y Bae

"Enghraifft ddisglair o gydweithio arloesol rhwng ymchwilwyr a diwydiant, a fydd yn denu rhagor o gyllid ar gyfer ymchwil ac yn sefydlu Cymru fel canolfan cyfrifiadureg ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang."

Prif Weinidog Cymru, 2018



Campws y Bae



Campws Singleton

EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL

Rhan annatod o'n llwyddiant yw ein gallu i ddarparu addysgu ac ymchwil rhagorol, yn ogystal ag ansawdd bywyd o'r radd flaenaf i'n staff a'n myfyrwyr.



EIN GWELEDIGAETH

Rydym, a byddwn yn parhau'n Brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwysu addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori. Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner y gallant ymddiried ynddo, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru.

Gweddwr crefft heb ei dawn / Technical skill is bereft without culture

Yn ein hanfod, rydym yn sefydliad egwyddorol, pwrpasol a gwydn sy'n nodweddiadol am werthoedd, diwylliant ac ymddygiadau arbennig sydd wrth wraidd ein sefydliad ac yn tanategu'r pum piler strategol allweddol:

1. Ein Cenhadaeth Ddinesig:

Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe a Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni.

2. Profiad ein Myfyrwyr:

Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol a gallwn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd ein profiad i fyfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr.

3. Ein Dysgu a'n Haddysgu:

Mae rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau meddwl yn annibynnol ac yn feiriadol yn elfen sylfaenol o'n diben. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn gadarn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog.

4. Ein Hymchwil:

Mae ein hymchwil yn newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae'n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant, ein cymdeithas, ein hiechyd, ein lles, ein heconomi a'n planed.

5. Ein Mentergarwch:

Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuriaidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau'n ffyddlon i uchelgeisiau ein sefydlwyr, drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol ac yn y sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl.

Mae pob un o'r meysydd hyn yn nodweddiadol am ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, i fod yn gyfrifol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, i ymdrechu dros ragoriaeth ac i gynnal safbwynt byd-eang sy'n ein galluogi i fod yn Brifysgol y gymuned sydd â chyrhaeddiad ac enw da rhyngwladol.

Mae'n chwe blynedd ers i ni lansio ein gweledigaeth strategol bresennol ac, ers hynny, mae ein sefydliad ni a'n sector wedi wynebu cyfnod o newid allanol digynsail.

Rydym wrthi'n datblygu ein strategaeth nesaf, a fydd yn ein galluogi i osod sylfeini ein gweledigaeth i'r dyfodol. Rydym yn llunio'r weledigaeth hon i ymateb i anghenion heddiw a'r dyfodol, ac i ddiffinio'n glir ac uchafu ein cryfderau, a'r cyfraniad unigryw a wneir gan ein Prifysgol at ein rhanbarth a'r byd. Ein bwriad yw lansio'r strategaeth newydd hon yn gynnar yn 2027.

Gweler ein **Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas** llawn ar-lein.

RHAGORIAETH YMCHWIL

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad angor â phwyslais mawr ar ymchwil, sy'n creu effaith economaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol ac iechyd â chyrhaeddiad byd-eang. Rydym yn parhau i adeiladu ar ein treftadaeth gyfoethog o ddarganfyddiadau ac ymchwil ar sail gwybodaeth a'r ysbryd arloesol sydd wedi diffinio ein Prifysgol ers iddi gael ei sefydlu gan fydd diwydiant, ar gyfer byd diwydiant, ym 1920.

Rydym yn adnabyddus am gyd-greu a chyflwyno arloesiadau trawsnewidiol, ac yn meithrin cydweithrediadau uchelgeisiol â phartneriaid ym myd diwydiant, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae ein cryfderau mewn ymchwil ac arloesi rhyngddisgyblaethol ar draws ein tair Cyfadran (Gwyddoniaeth a Pheirianneg, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, a Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd) yn gwneud gwahaniaeth i fywydau a dyfodol pobl drwy ymchwil ac effaith ragorol, ddibynadwy a chyfrifol.

Cyflwynwyd gwaith y nifer uchaf erioed o ymchwilwyr (578) i'w asesu yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021, sy'n gynydd o 56% ar y 370 a gyflwynwyd yn 2014. Rydym wedi tyfu ein canran gyffredinol o ymchwil sy'n rhagorol yn rhyngwladol ac sydd ar flaen y gad o 80% yn 2014 i 86% yn 2021, a barnwyd bod mwy na 90% o'n heffaith o'r radd flaenaf neu'n rhyngwladol ragorol o ran ei chyrhaeddiad a'i harwyddocâd.

Fel sefydliad Addysg Uwch ymchwil ddwys yng Nghymru, rydym yn cyfrannu at "ddwy flaenoriaeth" Llywodraeth Cymru "o gyflwyno cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi ffyniannus" a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), gan gyfrannu at gynnydd o ran Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

**YMYSG Y
350**

GORAU YN NHABLAU
BYD-EANG QS 2027

91%
O'N HYMCHWIL YN
'ARWAIN Y Ffordd
YN FYD-EANG' NEU'N
'RHAGOROL YN
RHYNGWLADOL'

FFRAMWAITH RHAGORIAETH
YMCHWIL 2021

**CYFLWYNWYD
GWAITH**

578

O YMCHWILWYR I'W
ASESU AR GYFER
REF 2021

1090

O YMCHWILWYR
ARLOESOL



RHAGORIAETH ADDYSGU

Rydym yn sefydliad uchelgeisiol sy'n cynnig amgylchedd academiaidd rhagorol a chytbwys sy'n galluogi myfyrwyr a staff i ragori.

Rydym yn falch o'r gwerth rydym yn ei ychwanegu at fywydau ein myfyrwyr, drwy ein profiad y myfyrwyr cyfoethog ac ansawdd ein haddysgu. Mae ein Prifysgol yn un o sefydliadau addysg uwch blaenllaw'r DU am gynnydd dysgu, ac mae cyflogaeth graddedigion wrth wraidd ein darpariaeth. Gwelir hyn drwy safle 26 Abertawe yn y DU am ragolygon graddedigion (Complete University Guide 2027).

Mae cydweithwyr yn Abertawe wedi ymrwmo i ddatblygu'n broffesiynol, gan gynnig dysgu ysbrydoledig a thrawsnewidiol, sydd ar flaen y gad o ran gweithgareddau addysgu. Mae ein cymuned academiaidd yn cynnwys unigolion sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth annibynnol am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, megis, BMA Cymru Wales/BMJ Athro Clinigol y Flwyddyn; Enillydd

gwobr Arloesi WISE; Achubwyr y Genedl – 100 unigolyn gorau; Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol Advance HE; a llawer mwy.

Oherwydd ein hymrwymiad i ragoriaeth, rydym wedi lansio rhaglen Trawsnewid y Cwricwlwm yn y Brifysgol gyfan yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Y nod yw galluogi ein dysgwyr i ddisgleirio yn eu bywydau proffesiynol ac fel dinasyddion hyderus a galluog. Mae fframwaith y cwricwlwm newydd yn sicrhau rhaglenni effeithlon, dynamig, cynaliadwy, gwydn sy'n gystadleuol mewn marchnadoedd lleol a byd-eang.

Gall ein cydweithwyr addysgu gael cymorth cynhwysfawr mewn agweddau allweddol ar ymarfer academiaidd, gan gynnwys datblygiad dysgu, addysgu ac asesu ar gyfer staff, cymorth wrth addysgu'r PGCert, rheoli Canvas ac arweiniad dysgu wedi'i gyfoethogi'n ddigidol, drwy ein Tim Datblygu Addysg. Mae eu gwaith yn sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr offer a'r hyder sydd eu hangen i ddarparu addysgu arloesol o ansawdd uchel.

Yn ogystal, mae gennym wasanaethau sy'n manteisio ar ein henw da ym meysydd ymchwil a phartneriaethau diwydiannol i gefnogi ein harlwy dysgu ac addysgu o'r radd flaenaf. Mae'r Academi Iechyd a Llesiant yn enghraifft ardderchog o sut mae myfyrwyr yn gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr cymwysedig, gan ennill profiad yn y diwydiant wrth gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles y rhanbarth lleol.

Mae'r Ganolfan Llwyddiant Academiaidd yn cefnogi myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau astudio academiaidd drwy amrywiaeth o gyrsgiau, gweithdai a thiworialau un-i-un. Mae ein fim Gyrfaoedd a Chyflogadwydd yn cynnig arweiniad gyrfaoedd un-i-un gan ymgynghorwyr cymwys proffesiynol ac yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth i fyfyrwyr a graddedigion.

Mae hyn oll yn cyfoethogi'r rhagoriaeth dysgu ac addysgu, â'r nod o fwyafu'r buddion nid yn unig ar gyfer ein myfyrwyr a'n cydweithwyr, ond ar gyfer y gymuned ehangach hefyd.



Yr Academi Iechyd a Llesiant

Cydweithrediad arloesol rhwng yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe a'n dau fwrdd iechyd lleol, i gyfuno arloesi, addysg, mentergarwch ac ymchwil o safon fyd-eang.

AROLESI A MENTERGARWCH

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe ym 1920 gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau i fod yn ffyddlon i uchelgeisiau ein sylfaenwyr drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol a sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl. Mae'n amlwg yn ein cenhadaeth prifysgol i ymateb i anghenion busnesau, sbarduno twf economaidd a chreu cyfoeth. Dros gan mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau ystyrion â phartneriaid masnachol a diwydiannol ar draws amrywiaeth o sectorau ac wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi cydweithrediadau sy'n arwain at arloesedd. Rydym yn arwain Cymru ym meysydd ymchwil hollbwysig i dwf economaidd a lles y boblogaeth, gan gynnwys;

- Arloesedd iechyd
- Dyfodol cynaliadwy, ynni a'r amgylchedd
- Diwylliant, cyfathrebu a threftadaeth
- Cyfiawnder a chydaddoldeb
- Dyfodol digidol
- Gweithgynhyrchu clyfar
- Arloesedd dur

Dros y degawd diwethaf mae Prifysgol Abertawe wedi gosod ei hun yn fyd-eang fel sefydliad blaenllaw ar gyfer ymchwil gydag effaith, a rhagoriaeth addysgu. Ar yr un pryd, mae ei henw da am entrepreneuriaeth a menter wedi datblygu, fel y dangosir drwy gael ei rhoi ar y rhestr fer bedair gwaith mewn pum mlynedd gan Wobrau Addysg Uwch y Times fel "Prifysgol Entrepreneuriaidd Ragorol", dod yn ail yn "Prifysgol Arloesol ac Entrepreneuriaidd Ewropeaidd y flwyddyn" yn 2024 gan Triple E, cael ei rhoi ar y rhestr fer ar gyfer categori "Partneriaeth Strategol" Gwobrau Cyfnewid Gwybodaeth yn 2025 ac enillydd gwobr gwaith cydweithredol NEEA y DU yn 2023.

Mae Abertawe hefyd yn bedwerydd yn y DU o ran cwmnïau deillio o brifysgolion ac yn ddegfed o ran sefydlu busnesau newydd gan fyfyrwyr/graddedigion, yn ôl arolwg HE-BCI yn 2024-25.

Rydym yn gwrando ar anghenion busnes ac rydym wedi datblygu cydweithrediadau strategol effeithiol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, gan helpu i:

- Oresgyn heriau diwydiant a darganfod cyfleoedd newydd
- Darparu mynediad dwyffordd i ddoniau ar gyfer diwydiant a sgiliau y bydd galw mawr amdanant yn y dyfodol.
- Darparu cyfleoedd masnachol megis cydleoeli canolfannau blaenllaw diwydiant.

Ar lefel ranbarthol, mae Prifysgol Abertawe'n gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol, Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein gwledigaeth strategol yn gydnaws â dyheadau'r Llywodraeth ar gyfer datblygu economaidd, datblygu sgiliau'r gweithlu, twf busnes ac arloesedd, gan weithredu ar raddfa fyd-eang.

I gydnabod pwysigrwydd y Brifysgol i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe, ac ar y cyd â Chyngor Abertawe, rydym wedi addo i greu mwy o swyddi, gwella addysg a pharhau i hyrwyddo diwylliant o fentergarwch ac arloesedd. Mae gennym nifer o bartneriaethau arwyddocaol, hirdymor â diwydiant, gan amrywio o TATA, UKAEA a Rolls Royce i'r DVLA a Vodafone.

Y FARGEN DDINESIG

Mae Prosiect Campysau Bargaen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £132m, a arweinir gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Partneriaeth Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH) a phartneriaid allweddol yn y sector preifat, wedi sicrhau £15m i ddatblygu safleoedd yn Nhreforys a Singleton. Bydd yn hyrwyddo arloesi a thwf busnes yn y sectorau technoleg feddygol a thechnoleg chwaraeon sy'n ehangu, a disgwylir iddo agor tua diwedd 2026.

Yn ogystal, mae de Cymru ar fin adeiladu ar ei chryfder a'i harbenigedd mewn arloesi dur a metelau drwy lansio cyfleuster newydd gwerth £20 miliwn, SWITCH: South Wales Industrial Transition from Carbon Hub. Dan arweiniad Cyngor Castell-nedd Port Talbot ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, bydd ymchwilwyr academiaidd, y llywodraeth a byd diwydiant yn cydweithio yn y cyfleuster newydd i ddarparu atebion arloesol ymarferol i ddatgarboneiddio'r sector dur a metelau a'r gadwyn gyflenwi.

CYFRIFON CYFLYMU EFFAITH (IAAS)

Gan adeiladu ar lwyddiant Cyfrif Cyflymu Effaith yr EPSRC dros y 10 mlynedd diwethaf, mae cyfrifon cyflymu effaith Prifysgol Abertawe wedi derbyn dros £5.66 miliwn i gefnogi portffolio o weithgareddau dros y pum mlynedd nesaf, gan ddechrau o 2022.

Mae'r cyllid yn cynnwys £750,000 gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), £822,000 gan y Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC), £1,250,00 gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC); gyda £2,833,830 pellach gan Gyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC)

CRONFA ARLOESI YMCHWIL CYMRU (RWIF)

Drwy ein cyllid blynyddol gwerth £3M gan Medr, mae Prifysgol Abertawe yn cyflawni ein hymrwymadau i gefnogi gweithgareddau masnachol, twf busnesau newydd a chenhadaeth ddinesig fel y nodir yn ein strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) a WIN (Rhwydwaith Arloesi Cymru). Mae ffactorau sy'n sbarduno llwyddiant yn cael eu hadlewyrchu'n fewnol ac yn allanol gan gynnwys ein cynnydd yn nifer y busnesau a sefydlir gan raddedigion (gan gynnwys y rhai sy'n weithredol ar ôl 3 blynedd), mwy o incwm o gyrsiau DPP sy'n ehangu a phartneriaid allanol yn defnyddio'n cyfleusterau, mwy o ddatgeliadau eiddo deallusol a nifer y staff sy'n ymwneud â phartneriaethau masnachol, ac mewn cwmnïau deillio sy'n seiliedig ar ein gweithgarwch Ymchwil a Datblygu.



CADARNLE AR GYFER YR IAITH GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

Mae Prifysgol Abertawe'n brifysgol ddwyieithog ac yn gadarnle ar gyfer yr iaith Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant.

O ddechreuadau diymhongar fel Coleg Prifysgol lleol dros ganrif yn ôl, heddiw rydym yn hyderus ac yn falch o fod yn Brifysgol a sefydlwyd gan Gymru ac sy'n gweithio er lles pobl Cymru.

Rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg a'n hunaniaeth, wrth gynnal ymagwedd ac uchelgais byd-eang sy'n ein galluogi i hyrwyddo Cymru i'r byd.

Rydym yn angor diwylliannol ac economaidd yn ein cymuned, ac mae gennym rôl ddynodedig i'w chwarae wrth ysgogi datblygiad rhanbarthol, gan gynnwys eirioli dros ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ymrwymedig i Safonau'r Gymraeg ac yn gwbl gynhwysol wrth groesawu myfyrwyr, cydweithwyr, partneriaid a'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mha ffordd bynnag y dymunant wrth ryngweithio â ni.



Y Gymraeg yw calon ein cymuned - yn gyfrwng dysgu, ymchwilio, cymdeithasu a dathlu.

The Welsh language is at the heart of our community - a medium to learn, research, socialise and celebrate.



SD, Daearyddiaeth



ACADEMI HYWEL TEIFI

Academi Hywel Teifi yw pwerdy'r Gymraeg yn ein Prifysgol; canolfan ragoriaeth ar gyfer astudio'r Gymraeg a'i llenyddiaeth, wrth hyrwyddo dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ystod o bynciau.

Fe'i sefydlwyd yn 2010 ac fe'i henwyd er cof am yr Athro Hywel Teifi Edwards, a fu'n Athro Gymraeg yn y Brifysgol ac yn academydd, yn hanesydd, yn ddarlledwr ac yn awdur blaenllaw yng Nghymru.

Er bod yr Academi'n gartref i dîm craidd o staff, mae hefyd yn gymuned i'r rhai hynny sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg ac i'r miloedd o fyfyrwyr sy'n siarad Gymraeg ar y campws.

Mae'r ganolfan yn gweithio i sicrhau statws uwch i'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd y Brifysgol ac yn ne-orllewin Cymru. Drwy weithgareddau amrywiol y mae'n eu cefnogi, mae'n cynyddu ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac ymchwil Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ac yn annog cydweithio, entrepreneuriaeth a chyfleoedd. Ein nod yw sicrhau bod myfyrwyr Prifysgol Abertawe'n cael y profiad gorau o ddau fyd; profiad cyfrwng Gymraeg mewn prifysgol gyda chysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol.

MAE'R ACADEMI'N GARTREF I'R CANLYNOL;

Coleg Cymraeg Cenedlaethol - Cangen Prifysgol Abertawe:

Mae'n cynllunio ac yn cefnogi ein darpariaeth addysg uwch cyfrwng Gymraeg mewn ffordd strategol ar draws prifysgolion Cymru. Mae ganddo rôl allweddol wrth sicrhau cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a'u datblygu ar gyfer dysgwyr, myfyrwyr a phrentisiaid.

Dysgu Cymraeg - Rhanbarth Bae Abertawe:

Yn cyflwyno cyrsiau a gweithgareddau iaith o safon ar ran y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg, i Ddinas Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot.

Tŷ'r Gwrhyd:

Partneriaeth rhwng Academi Hywel Teifi a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, (a dderbyniodd grant gan Lywodraeth Cymru gwerth £300,000) i greu canolfan gymunedol Gymraeg yng nghanol Cwm Tawe.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government





CYMUNED MYFYRWYR RHYNGWLADOL

Mae gan Brifysgol Abertawe gyrhaeddiad ac enw da byd-eang ac mae'n gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i gyflwyno ymchwil o'r radd flaenaf, cyfleoedd uwch ar gyfer dysgu ac addysgu, a chyfleoedd sy'n newid bywydau i fyfyrwyr.

Mae ein campysau'n fywiog ac yn amrywiol; ceir pobl o fwy na 100 o wledydd gwahanol sy'n rhan o'n cymuned gyfeillgar.

Rydym yn ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr gael profiad rhyngwladol, gan estyn mynediad at addysg Abertawe drwy bartneriaethau byd-eang o safon a pherthnasoedd sefydliadol cryfach ym meysydd addysg ac ymchwil. Rydym hefyd yn amrywio ein harlwy addysg fyd-eang drwy ddulliau astudio a modelau academaidd gwahanol, rhai sy'n cael eu darparu yn Abertawe, ar-lein ac ar y cyd â phartneriaid ledled y byd. Mae'r ymagwedd fwyfwy integredig hon yn helpu i greu portffolio byd-eang mwy amrywiol, gwydn a chynaliadwy.

Mae'r Brifysgol wedi parhau i addasu a datblygu ein cyrhaeddiad yn y farchnad rhyngwladol. Mae Campws y Bae yn gartref i'r Coleg (sy'n cynnig rhaglenni llwyr i fyfyrwyr rhyngwladol), sydd wedi gweld mwy na 2,500 o fyfyrwyr yn symud ymlaen i'n Prifysgol - cyfradd ddilyniant o 90%.

Yn QS World University Rankings 2027, mae Prifysgol Abertawe yn safle 322 yn y byd. Roedd ein perfformiad yn arbennig o gryf ym maes Cynaliadwyedd, gan sicrhau safle 134 i ni yn fyd-eang, ynghyd â safle 244 ar gyfer Rhwydwaith Ymchwil Rhyngwladol a safle 303 ar gyfer Enw Da Ymhlith Cyflogwyr.

Mae Abertawe'n adnabyddus fel dinas gynhwysol a chroesawgar sy'n dod â diwylliannau, crefyddau a chefnidiroedd ethnig o bedwar ban byd ynghyd. Rydym yn falch o gefnogi gweledigaeth Dinas Noddfa Abertawe ac wedi'n hachredu'n Brifysgol Noddfa. Rydym yn ymrwymedig i gynnig cyfleoedd cyfartal mewn addysg uwch i bobl sy'n ceisio noddfa yn y DU a'u cynorthwyo i gyflawni eu potensial a'u huchelgeisiau drwy ein Hysgoloriaeth Noddfa.



PARTNERIAETHAU STRATEGOL RHYNGWLADOL

Mae gan Brifysgol Abertawe gyrhaeddiad ac enw da byd-eang ac mae'n gweithio gyda phartneriaid o ansawdd uchel ledled y byd i gyflawni ymchwil o'r radd flaenaf, rhaglenni gradd trwy addysg draws-wladol (TNE), a chyfleoedd symudedd sy'n newid bywydau myfyrwyr.


Mae gennym nifer o Bartneriaethau Strategol Rhyngwladol (ISP) sy'n flaenllaw yn eu sectorau. Mae'r Partneriaethau Strategol Rhyngwladol (ISPs) hyn yn nodedig oherwydd ehangder a dyfnder y cydweithrediadau, sy'n cwmpasu ymchwil, addysgu a symudedd ar draws ystod eang o feysydd pwnc. Mae'r partneriaethau dwfn hyn gyda nifer fach o brifysgolion o safon uchel dramor yn elfen allweddol o'n huchelgeisiau strategol.

Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y myfyrwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd byd-eang yr ydym yn falch o'u cynnig.

**CYDWEITHREDIADAU
Â 127 O WLEDYDD
LEDLED Y BYD**

Partneriaethau Addysg Drawswladol a gymeradwywyd

O fis Ionawr 2026



(c)= consortiwm
(p)= yn aros

Prifysgol Abertawe: cyrchfan fyd-eang sy'n cynnig cyfleoedd ledled y byd i fyfyrwyr trwy ein prifysgolion partner.

PRIFYSGOL TRENT CANADA

Mae rhaglenni Gradd Ddeuol yn Y Gyfraith, Peirianeg Gemegol a llwybrau i bynciau Meddygaeth rhwng Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Trent yn caniatáu i fyfyrwyr astudio yn y ddwy wlad a chael gradd Baglor o bob sefydliad. Mae myfyrwyr yn treulio dwy neu dair blynedd yn Abertawe (yn dibynnu ar y rhaglen) ac mae 160 o fyfyrwyr Trent wedi cofrestru yn Abertawe hyd yn hyn.

Y Coleg, Campws y Bae, Abertawe



NAVITAS AWSTRALIA

Menter ar y cyd gwerth £45m rhwng Prifysgol Abertawe a Navitas, darparwr addysg fyd-eang mewn partneriaethau Prifysgol rhwngwladol, lansiodd Y Coleg yn 2018. Mae'r fenter yn gwella cyrhaeddiad byd-eang y Brifysgol yn sylweddol, ei phroffil a'i henw da rhwngwladol, gan gynnig amrywiaeth o opsiynau llwybrau israddedig ac ôl-raddedig i fyfyrwyr o bedwar ban byd.

PARTNERIAETH STRATEGOL TEXAS

Mae ein Partneriaeth Strategol Texas yn hirsefydlog ac yn llwyddiannus, gan gynnwys wyth prifysgol a sefydliad meddygol blaenllaw:

- Prifysgol Texas yn Austin
(safle 50 yn Nhablau Prifysgolion y Byd THE 2026)
- Prifysgol A&M Texas
(safle 151 yn Nhablau Prifysgolion y Byd THE 2026)
- Prifysgol Rice
(safle 103 yn Nhablau Prifysgolion y Byd THE 2026)
- Prifysgol Houston
- Sefydliad Ymchwil Methodistaidd Houston
- Coleg Meddygaeth Baylor
(safle 253 yn EduRank 2026)
- Canolfan Gwyddor Iechyd Prifysgol Texas yn Houston
- Cangen Feddygol Prifysgol Texas yn Galveston

Mae wedi arwain at bron 500 o gyfnwidiadau myfyrwyr, 429 o gyhoeddiadau ar y cyd, mwy na 52,000 o ddyfyniadau a chyllid gwerth bron \$300,000 ar gyfer ysgoloriaethau a chyllid er mwyn symud.



PARTNERIAETH STRATEGOL GRENOBLE



Caroline Bissardon
myfyriwr graddedig PhD cyntaf Grenoble-Abertawe, ac enillydd Gwobr Menywod mewn Gwyddoniaeth L'Oreal-UNESCO

Mae ein Partneriaeth Strategol gydag Université Grenoble Alpes, sef safle gwyddonol mawr yn Ffrainc sydd â 59,000 o fyfyrwyr, yn bartneriaeth arloesol amlddisgyblaethol rhwng y ddau sefydliad.

Mae'r brifysgol yn un o 9 prifysgol yn Ffrainc i gael y label IDEX ac yn cael ei chydnabod yn ganolfan ragoriaeth ryngwladol gystadleuol mewn addysg uwch ac ymchwil wyddonol.

UCHAFBWYNTIAU:

- Partneriaeth gynaliadwy, hirsefydlog, a sefydlwyd yn 2012
- Cydweithio amlddisgyblaethol ledled y sefydliad wedi'i fframio gan Gynllun Strategol pum mlynedd deinamig
- Strwythur Rheoli Cyffredin i nodi pynciau ymchwil a hyrwyddo mentrau ar y cyd
- Mae meysydd ffocws yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial, gwydnwch, lled-ddargludyddion a microelectroneg.
- Rhaglen reolaidd o ymweliadau â ffocws i gychwyn ac ehangu perthnasoedd
- Ymchwil ar y cyd (gan gynnwys ceisiadau am grantiau ar y cyd, rhwydweithiau academiaidd newydd, cynadleddau ar y cyd, papurau cynhadledd a chyhoeddiadau ar y cyd)
- Derbyn myfyrwyr PhD ar y cyd yn flynyddol
- 2 raglen Meistr ar y cyd
- Cyfnewid myfyrwyr a staff
- Canolfan Grenoble-Abertawe ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial (GoSCAI) - canolfan ymchwil ar y cyd ar gyfer data a Deallusrwydd Artiffisial sy'n canolbwyntio ar bobl

MANTEISION GWEITHIO YM MHRIFYSGOL ABERTAWE

Rydym yn cynnig amgylchedd gwaith croesawgar a chynhwysol, lle mae unigolion yn cael eu gwerthfawrogi am eu sgiliau eu profiad a'u cyfraniadau heb ystyried eu cefndir. Fel rhan o'n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn, rydym yn gweithio'n rhagweithiol i nodi ac ymdrin â rhwystrau i fynediad teg, cyfranogiad, cynnydd a chynhwysiant ar draws ein gweithlu.

Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn yn ein gwobrau Athena SWAN a gwobr Siarter y Cydraddoldeb Hil, sy'n cefnogi ein hymdrechion parhaus i hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd a hil drwy ddeall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cynrychiolaeth, profiad a datblygiad. Rydym hefyd yn falch o gael ein cydnabod fel un o'r cyflogwyr gorau ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall 2024, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i greu amgylchedd lle gall pawb wireddu eu potensial a ffynnu. Rydym yn falch o fod yn:

- Gyflogwr achrededig y Cyflog Byw Gwirioneddol
- Deiliad gwobr Siarter Athena SWAN
- Deiliad gwobr y Siarter Cydraddoldeb Hil
- Aelod o Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr

Cefnogir ein cydweithwyr addysgu gan y Tim Datblygu Addysg sy'n cynnig adnoddau a chymorth ar gyfer gwella pob agwedd ar ddysgu ac addysgu.

Mae ein tîm Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth ymroddedig yn gweithio ar y ddau gampws er mwyn cefnogi cylch bywyd cyfan syniadau ymchwil, o sicrhau grantiau i reoli prosiect, masnacheiddio ymchwil a datblygu syniadau busnes.

Caiff cydweithwyr fanteisio hefyd ar gyfleusterau o'r radd flaenaf ein Hacademi lechyd a Llesiant, sy'n cynnig cyfleoedd i unigolion gael eu trin gan ymarferwyr cymwysedig iawn, mewn amgylchedd proffesiynol, cartrefol a chyfeillgar, gan hefyd ddarparu hyfforddiant i'n myfyrwyr.

Gwyddom fod gan bobl ymrwymadau y tu hwnt i'w swyddi, a dyna pam rydym yn darparu amgylchedd gweithio sy'n galluogi staff i gyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng bywyd a gwaith. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion ychwanegol, oll wedi'u cefnogi gan ein hadran Gwasanaethau Pobl arobryn.

Gweler ein tudalennau **Manteision gweithio** yn Abertawe.



GWOBROWYON A
BUDDION STAFF

MY LIFESTYLE:
PORTH CYNILION
AR-LEIN

GWASANAETHAU
DATBLYGU A
HYFFORDDIANT

GWASANAETHAU
LLES

UN O 100 O
GYFLOGWYR
GORAU
STONEWALL

YR ACADEMI
IECHYD A
LLESIANT

GWEITHIO'N
HYBLYG AC
MEWN MODD
SY'N YSTYRIOL O
DEULUOEDD

CANOLFAN
CHWARAEON

CYFLOGWR Y
CYFLOG BYW
GWIRIONEDDOL

SWELL: CYNLLUN
GWOBRAU
CYNALIADWYEDD
A LLES

DEILIAD
GWOBWR SIARTER
ATHENA SWAN

DEILIAD GWOBWR
Y SIARTER
CYDRADDOLDEB
HIL

CYFLOG,
GRADDFEYDD
CYFLOG A'R
GYFLOGRES

CYMDEITHASAU
STAFF

CYNLLUN BEICIO
I'R GWAITH

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH, CYNHWYSIANT A PHERTHYN

Ein pobl yw calon ein Prifysgol. Rydym yn dathlu amrywiaeth ein staff a'n myfyrwyr ac wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd croesawgar lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a bod ganddynt ymdeimlad gwirioneddol o berthyn. Rydym yn cydnabod bod safbwyntiau amrywiol yn cryfhau ein cymuned, yn cyfoethogi prosesau penderfynu ac yn ysgogi arloesi.

Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan werthoedd, rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn, ochr yn ochr â'n hymrwymiad i ryddid i lefaru. Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i gyfle, cynrychiolaeth a dilyniant, gan gynnwys ein hymdrechion parhaus i hyrwyddo cydraddoldeb hil a rhywedd yn ogystal â nodweddion gwarchodedig eraill, ac i wella profiadau pob cydweithiwr.

Mae ein rhwydweithiau staff yn chwarae rhan bwysig wrth greu diwylliant cefnogol a chynhwysol, gan gynnig cyfleoedd i gysylltu, eirioli a dysgu ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys ein Rhwydwaith Staff Anabledd a Salwch Cronig, Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth, Rhwydwaith Staff LHDT+ a Rhwydwaith Staff Cynghreiriaid LHDT+, sy'n helpu i roi mwy o rym i leisiau cydweithwyr ac i lunio datblygiad parhaus gweithle teg a chroesawgar.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a pherthyn.

Mwy o wybodaeth: **Tudalennau gwe Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Phertyn.**

**PRIFYSGOL
ABERTAWE**



**Y GYFADRAN
MEDDYGAETH, IECHYD
A GWYDDOR BYWYD**



DINAS ABERTAWE

Mae Abertawe’n ddinas arfordirol hardd a chosmopolitan sy’n cynnig ansawdd bywyd rhagorol. Dinas Cymru ar Lan y Môr a man geni Dylan Thomas, mae’n ddinas forwrol fywiog a chanddi boblogaeth o 250,000.

Yn sgîl y Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, denwyd buddsoddiad gwerth £10.2 miliwn i ganol y ddinas. Creodd y prosiect gannoedd o swyddi, yn ogystal ag ailddatblygu 58,000 o droedfeddi sgwâr o ofod masnachol. Bydd y ddinas yn parhau i ddatblygu’n gyflym yn sgîl rhagor o fuddsoddiadau a chyfleoedd modern.

Mae gan y ddinas gysylltiadau uniongyrchol â Llundain a Manceinion ac mae’n daith fer ar y trên o Gaerdydd.

A hithau’n ‘Ddinas Hawliau Dynol’ gyntaf Cymru ac yn Dinas Noddfa, mae’n ddinas ddathlu lewyrchus. Dros y blyneddau, mae wedi dod yn lle sy’n fwyfwy amrywiol a chynhwysol i fyw a gweithio ynddo. Mae’n elwa o bobl a diwylliannau o bedwar ban byd wrth wraidd canol y ddinas lle ceir gwahanol fwydydd, gwyliau, bywyd diwylliannol a chymunedol. Mae Abertawe’n cynnig llawer o leodd i’n cymuned ryngwladol deimlo’n gartrefol. Mae’n llwyddo i gynnig dechrau da i blant drwy ei sefydliadau addysgol yn ogystal â chyfleoedd hamdden. Mae’n annog pobl i ddysgu’n llwyddiannus, gan roi cyfleoedd i bawb elwa o le da i fyw a gweithio.

Tafliad carreg i ffordd yn unig, ceir pentref y Mwmbwls, a oedd yn gyrchfan gwyliau poblogaidd yn oes Fictoria. Mae’r pentref, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel ‘Porth Gŵyr, yn cynnig dewis gwych o atyniadau, gan gynnwys pier, siopau dillad traddodiadol, siopau crefftau a chaffis hufen iâ. Mae Penrhyn Gŵyr – a ddynodwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf Prydain – yn ymestyn i’r gorllewin o’r Mwmbwls, gan gynnig cyfres o dirweddau arfordirol a gwledig hyfryd. I’r dwyrain, mae ‘Gwlad y Sgydau’ yng Nghwm Afan a Chwm Nedd sy’n hafan i gerddwyr a beicwyr fel ei gilydd. Wrth deithio i’r gorllewin, byddwch yn cyrraedd yr unig barc cenedlaethol arfordirol yn Mhrydain: Sir Benfro.

Mae Abertawe yn elwa hefyd o fod yn agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy’n daith awr o hyd yn unig mewn car o’r ddinas.



Y CYFLE

Y COFRESTRYDD A PHRIF SWYDDOG GWEITHREDU

Teitl y Swydd	Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu
Cyflog	Cystadleuol
Contract:	Amser llawn
Lleoliad	Singleton a'r Bae gyda theithio rhyngwladol yn ôl yr angen

GWYBODAETH GEFNDIROL

Bydd y rôl hon yn cefnogi’r Is-ganghellor wrth arwain a rheoli’r Brifysgol, gan wneud cyfraniad sylweddol at gyfeiriad a phenderfyniadau strategol ar draws ystod lawn gweithgarwch y sefydliad.

Fel Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, mae’r person hwn yn atebol am sefydlu systemau sy’n cynnig rheolaeth fewnol effeithiol ac am roi arweinyddiaeth strategol a chynllunio gweithredol ar gyfer y swyddogaethau canlynol: Y Gwasanaethau Addysg, Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol, y Gwasanaethau Pobl, Newid Strategol, Gwasanaethau Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth a Bywyd Myfyrwyr. Mae’r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu hefyd yn arwain Cyfarwyddwyr Gweithrediadau Strategol y Cyfadrannau, sy’n gweithio ar draws ein tair Cyfadran academiaidd, yn ogystal ag Ysgrifennydd y Brifysgol sy’n gyfrifol am lywodraethiant y Brifysgol ac am arwain Swyddfa’r Is-ganghellor. Mae’r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu hefyd yn gyfrifol am feithrin diben cyffredin ar draws y Brifysgol, gan sicrhau cydlyniant a gweithio agos rhwng y Cyfadrannau academiaidd a’r Unedau Gwasanaeth Proffesiynol.

Hefyd mae’r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu’n gyfrifol am sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i gydymffurfio â’r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol priodol sy’n diffinio ein rhwymedigaethau a’n dyletswyddau ac am gefnogi llywodraethiant y Brifysgol drwy ymgysylltu â Chyngor y Brifysgol a’i gynghori. Fel deiliad uwch swydd mewn sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, bydd y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu’n cael ei annog yn gryf i geisio cyrraedd lefel sgysiol o Gymraeg gyda chymorth.

PRIF DDIBEN Y SWYDD

- Gweithio gyda’r Is-ganghellor ac uwch-gydweithwyr i arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Gorfforaethol y Brifysgol, adrodd arni, ei gwerthuso a’i gwella’n barhaus, gyda chyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni blaenoriaethau strategol penodol a chamau gweithredu cysylltiedig yn unol â chyfarwyddyd yr Is-ganghellor.
- Sicrhau bod gwasanaethau cymorth costeffeithiol ac arloesol yn cael eu darparu gyda lefelau uchel o berfformiad unigol ac ar y cyd sy’n ymateb i alwadau, anghenion a dyheadau heriol myfyrwyr a staff, a newidiadau yn yr amgylchedd allanol.
- Rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol i swyddogaethau’r gwasanaethau proffesiynol, gweithio’n agos gyda chydweithwyr ledled y Brifysgol i sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn effeithiol ac yn gadarn, ac yn gallu ymateb i flaenoriaethau strategol.
- Sicrhau bod gofynion cydymffurfiaeth ac atebolrwydd statudol yn cael eu cyflawni mewn perthynas â rheoleiddwyr, cyllidwyr ac archwilio mewnol ac allanol
- Rhoi cyngor a chymorth i Gadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion Pwyllgorau’r Cyngor, a sicrhau bod trefniadau llywodraethiant effeithiol ar waith
- Sicrhau bod yr holl weithgareddau yng nghwmpas y swydd yn cael eu rheoli fel bod yr holl adnoddau (dynol, ariannol a deunyddiau) yn cael eu defnyddio’n effeithiol a bod targedau ariannol yn cael eu cyflawni neu y rhagorir arnynt
- Goruchwyllo cyllideb y Brifysgol gyda’r Prif Swyddog Ariannol a’r Uwch-dim Arweinyddiaeth sy’n cytuno ar y cyd ar gyfeiriad strategol y Brifysgol a’r blaenoriaethau ariannol cysylltiedig
- Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am adeiladu tîm o arweinwyr adrannol cryf, hyderus a galluog sy’n deall eu meysydd cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn glir
- Gweithio mewn ffordd ragweithiol i sicrhau diwylliant o dryloywder, cyfrifoldeb a rennir, cydweithio a diben cyffredin

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyfrannu’n llawn at bolisiau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol;
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn mewn arferion gwaith, a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol;
- Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus a chynllunio ar gyfer argyfyngau drwy ddealltwriaeth dda o’r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol;
- Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol;
- Unrhyw ddyletswyddau eraill, yn unol â chyfarwyddyd yr Is-ganghellor

YR UNIGOLYN

MEINI PRAWF HANFODOL: :

ARWEINYDDIAETH:

1. Tystiolaeth o greu diwylliant cynhwysol sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan ddatblygu a herio timau i lwyddo, ac ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol;
2. Y gallu i alluogi timau i weithio gyda'i gilydd ac ar draws swyddogaethau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau staff a myfyrwyr, a chreu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her;
3. Tystiolaeth o brofiad o greu amgylcheddau sy'n nodi ac yn deall anghenion cydweithwyr, gan roi blaenoriaeth i ddiwallu'r rhain ac o ysgogi ac ysbrydoli timau i ddarparu'r safonau uchaf o ofal personol;
4. Y gallu i arwain mewn modd trawsnewidiol, gyda phrofiad profedig o arwain newid trawsnewidiol yn llwyddiannus mewn cyd-destun addysg uwch


CYMWYSTERAU A PHROFIAD:

5. Profiad o arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol mewn addysg uwch, gan ddefnyddio meddwl yn arloesol i ddatblygu a gweithredu strategaethau i gyflawni amcanion sefydliadol;
6. Tystiolaeth o sgiliau rheoli pobl cryf, gan greu timau perfformiad uchel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau;
7. Profiad o weithredu'n llwyddiannus mewn amgylchedd cymhleth, gan reoli cyllidebau mawr a swyddogaethau amrywiol;
8. Profiad o nodi, rheoli a monitro risg yn llwyddiannus;
9. Profiad o feithrin a chynnal perthnasoedd a rhwydweithiau allanol a gwella enw da sefydliadol, gan arwain at gyfleoedd masnachol cynyddol

GWYBODAETH A SGILIAU:

10. Dealltwriaeth gynhwysfawr o ddatblygiadau presennol ac yn y dyfodol yn y sector addysg uwch a'r ysgogwyr allweddol sy'n sail iddynt;
11. Sgiliau rhyngbersonol ardderchog gyda'r gallu i feithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar gydymddiriedaeth mewn ystod eang o leoliadau diwylliannol;
12. Hygrededd proffesiynol, uniondeb, cryfder cymeriad a'r gallu i ddylanwadu ar eraill yn y Brifysgol ac yn allanol;
13. Tystiolaeth o graffter masnachol;
14. Tystiolaeth o'r gallu i sbarduno newid diwylliannol a chynllunio newid a'i roi ar waith mewn cyd-destun sefydliadol.

STRWYTHUR SEFYDLIADOL YR UWCH-DÎM ARWEINYDDIAETH



STRWYTHUR Y BRIFYSGOL

UWCH-DÎM ARWEINYDDIAETH

Mae gan ein Prifysgol dair cyfadran: Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd; Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianeg, ac fe'i harweinir gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth

Yr Is-ganghellor

Y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu

Dirprwy Is-ganghellor (Addysg)

Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladol)

Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)

Dirprwy Is-ganghellor (Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol)

Dirprwy Is-ganghellor (Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd)

Dirprwy Is-ganghellor (Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianeg)

Prif Swyddog Ariannol

Yr Athro Paul Boyle

Y rôl hon

Yr Athro Deborah Youngs

Yr Athro Judith Lamie

Yr Athro Helen Griffiths

Yr Athro Ryan Murphy

Yr Athro Charlotte Rees

Yr Athro David Smith

Mr Darren Griffiths

GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae Cyfarwyddiaethau'r Gwasanaethau Proffesiynol yn cefnogi gwaith ein Prifysgol ac maen nhw'n gyfrifol am sicrhau gwasanaethau proffesiynol effeithlon ac effeithiol ar draws gweithgareddau ein Prifysgol:

Gwasanaethau Addysg

Ystadau, Digidol a Gwasanaethau Campws

Y Gwasanaethau Pobl

Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol

Newid Strategol

Cynllunio, Perfformiad a Deallusrwydd

Cyfnewid Ymchwil a Gwybodaeth

Bywyd Myfyrwyr

Swyddfa'r Is-ganghellor

Mr Adrian Novis

Dr Greg Ducie

Mrs Sian Cushion

Dr Mark Skippen

Mr Andrew Jones

Miss Louisa Parry

Dr David Bembo

Major Gareth Hughes

Ms Louise Woollard



LLYWODRAETHU'R BRIFYSGOL

CYNGOR EIN PRIFYSGOL

Cyngor Prifysgol Abertawe yw'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol, yn ogystal â'i chyllid, ei heiddo, ei buddsoddiadau a'i busnes cyffredinol. Mae gan y Cyngor, sy'n ymgynnull bedair gwaith y flwyddyn fel arfer, 19 o aelodau ar hyn o bryd y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau lleig o'r tu allan i'n Prifysgol.

Yr aelodau presennol yw:

Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor

Dirprwy Ganghellor

Trysorydd

Yr Is-ganghellor

Aelodau Lleig wedi'u Cyfethol gan y Cyngor

Mr Goi Ashmore

Mrs Nan Williams

Ms Anne Tutt

Yr Athro Paul Boyle

Mr Laurence Carpanini

Yr Athro Edward David

Mr Mark Jones

Mrs Karen Jones

Matt Harris

Mrs Marcia Sinfield

Yr Athro Keshav Singhal

Mr Richard Thomas

Yr Athro Michelle Lee

Dr Phatsimo Mabophiwa

Mr Heath Davies

Mr Adam Jones

Mr Robbie Richards

Mr Tom Navin

Aelodau staff a benodwyd gan y Senedd

Gweithwyr Prifysgol Abertawe fel a bennir gan yr Ordinhadau

Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Myfyriwr a benodwyd gan Undeb y Myfyrwyr

SENEDD EIN PRIFYSGOL

Senedd y Brifysgol yw uwch-gorff academiaidd y Brifysgol ac mae'n gyfrifol, yn unol â chymradwyaeth y Cyngor, am reoleiddio a goruchwyllo cyrsiau, dyfarniadau a chymwysterau a ddarperir gan y Brifysgol. Daw aelodau'r Senedd o staff academiaidd a myfyrwyr y sefydliad.

LYS EIN PRIFYSGOL

Mae'r Llys, a gadeirir gan y Canghellor, yn gorff statudol mawr a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol. Mae'n fforwm cyhoeddus pwysig sy'n galluogi'r Brifysgol i ymgysylltu â'i rhanddeiliaid allanol.



CYNLLUNIAU UCHELGEISOL AMSER CYFFROUS I YMUNO Â PHRIFYSGOL ABERTAWE

Sefydlwyd ein Prifysgol ym 1920 gan ddiwydiant, ac ar gyfer diwydiant.
Ganrif wedi hynny, rydym yn parhau i gydweithredu'n ystyrllon â phartneriaid mewn amrywiaeth o sectorau, er lles ein rhanbarth,
ein planed a'i phobl.

Ymunwch â ni, wrth i ni symud ymlaen yn ein hail ganrif ag egwyddor, diben a gwydnwch.



Mae Prifysgol Abertawe wedi penodi **Veredus**, asiantaeth chwilio gweithredol, i gynorthwyo gyda'r penodiad hwn (www.veredus.co.uk).

I gyflwyno cais am y swydd hon, cyflwynwch y ddogfennaeth ganlynol i ni erbyn **23:59 nos Wener, 23 Hydref 2026 fan bellaf:**

- CV sy'n nodi hanes eich gyrfa, ynghyd â chyfrifoldebau a chyflawniadau allweddol.
- Datganiad cefnogol nad yw'n hwy na dwy dudalen maint A4 sy'n crynhoi eich cymhelliant, eich profiad a'ch sgiliau o'u cymharu â gofynion y rôl, gan gyfeirio at feini prawf y fanyleb person.
- Ffurflen Monitro Amrywiaeth a Ffurflen Gwybodaeth Atebol Ymgeisydd wedi'u cwblhau. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni o dudalen swyddi Veredus.

Dylid anfon ceisiadau drwy wefan Veredus -

www.veredus.co.uk/opportunities gan ddyfynnu cyfeirnod **1219**.

RHAGOR O WYBODAETH

Am drafodaeth gyfrinachol am y rôl, cysylltwch â'n hymgynghorwyr cynghori yn Veredus:

RReece D'Alanno yn reece.dalanno@veredus.co.uk

Nataliya Starik-Bludova yn nataliya.starik-bludova@veredus.co.uk

AMSERLEN DDANGOSOL

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 23 Hydref 2026

Cyfweliadau Terfynol: Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2026

GDPR

Yn Veredus, rydym yn ofalus i ddiogelu preifatrwydd ein hymgeiswyr a'n cleientiaid. I ddarllen mwy am sut rydym yn casglu, yn storio ac yn rhannu eich data, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael yma:

www.veredus.co.uk/privacy-policy/

Rydym yn cydnabod nad oes cynrychiolaeth ddigonol o fenywod a phobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol ar hyn o bryd ar y lefel hon a byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan ymgeiswyr o'r grwpiau hyn. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau proses recriwtio deg a chynhwysol, a gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod yn unol â gofynion y rôl.



Prifysgol Abertawe
Swansea University